Trin data

Cyfnod Sylfaen - Ystod	Meithrin	Derbyn	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	CA2 - ystod	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4
Casglu, cynrychioli a dehongli data: ***didoli a dosbarthu setiau o wrthrychau gan ddefnyddio un neu ragor o feini prawf.***	Didoli a pharu gwrthrychau neu luniau trwy adnabod tebygrwydd. Dosbarthu gwrthrychau fel rhan o drefn yr ystafell ddosbarth.	Didoli gwrthrychau gan ddefnyddio un maen prawf, a byddant yn ymwybodol o nodweddion gwrthgyferbyniol. Gwybod pan fydd gwrthrych yn wahanol a phan na fydd yn perthyn i gategori cyfarwydd.	Didoli a dosbarthu gwrthrychau, gan ddangos y maen prawf y maent wedi ei ddefnyddio.	Didoli gwrthrychau a'u dosbarthu drwy ddefnyddio mwy nag un maen prawf.	**Casglu, cynrychioli a dehongli data:**	Dosbarthu gwrthrychau, rhifau neu siapiau yn ôl dau faen prawf a'u danogs ar ddiagram Carroll neu Venn.	Defnyddio diagramau Venn neu Carroll i ddangos gwybodaeth am siapiau neu rifau.
Casglu data ar gyfer amrywiaeth o ddibenion diffiniedig ac o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys TGCh			Casglu data a chreu a threfnu tabl. Creu a threfnu rhestr.	Casglu gwybodaeth a chofnodi eu canlyniadau mewn tablau, rhestrau, diagramau a graffiau bloc syml.	***Casglu data ar gyfer amrywiaeth o ddibenion diffiniedig, gan gynnwys y rhai sy'n codi o'u cwestiynau eu hunain, ac o amrywiaeth o ffynonellau.***	Casglu data a chreu tabl amledd syml. Defnyddio data o dabl amledd a siart bar gydag echelinau fertigol wedi'u labelu mewn unedau, ac yna mewn deuoedd.	Echdynnu a dehongli gwybodaeth a gyflwynir mewn tablau a rhestrau syml. Llunio a dehongli siartiau bar a phictogramau. Casglu data a chreu siart tali. Dehongli siart bar gyda'r echelinau fertigol wedi'u nodi mewn lluosrifau o 2,5,10 neu 20.
Mynegi data a gasglwyd gan ddefnyddio gwrthrychau go iawn, lluniau neu ddiagramau i ddechrau, cyn symud ymlaen i lunio amrywiaeth o siartiau, graffiau, diagramau, tablau neu gronfeydd data syml.			Casglu gwybodaeth drwy bleidleisio neu ddosbarthu, a'i chynrychioli drwy arlunio neu osod gwrthrychau neu luniau.	Casglu data a chreu graff bloc syml. Creu pictogram syml lle mae'r symbol yn cynrychioli un uned.	***Defnyddio a chyflwyno data mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys tablau, pictogramau, siartiau, siartiau bar, graffiau llinell, diagramau, testun a TGCh*** ***Cyfrifo a defnyddio'r modd, y canolrif a'r cymedr ac amrediad o set o ddata arwahanol*** **Deall a defnyddio tebygolrwydd:** ***Defnyddio iaith bob dydd ar gyfer syniadau cynnar ynglŷn â thebygolrwydd*** ***Gwybod bod tebygolrwydd digwyddiad yn gorwedd rhwng amhosibl a sicr.***	Penderfynu pa ddata i'w gasglu a chreu pictogram syml ble mae'r symbol yn cynrychioli dwy uned. Defnyddio rhaglen graffio syml i fewnbynnu ac arddangos data.	Defnyddio data a gesglir mewn pwnc arall a chreu pictogram lle mae'r symbol yn cynrychioli nifer o unedau.